Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau ar gyfer Dyletswydd Atodlen 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 – y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau

## 1. Rhagymadrodd a chyd-destun

1.1. Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yn asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth (DfT), â safleoedd yn Abertawe a Birmingham, ac mae'n cyflogi dros 6,000 o staff. Rydym yn dal mwy na 50 miliwn o gofnodion gyrwyr a thros 40 miliwn o gofnodion cerbydau ledled y DU.

1.2. Mae'n hystâd yn cynnwys tri safle yn ardal Abertawe, sy'n cwmpasu tua 63,700m$^2$. Mae'r rhan fwyaf o'n staff wedi'u lleoli yn ein safle yn Nhreforys, gyda thua 1000 o staff yn gweithio yn ein cyfleusterau argraffu, canolfan gyswllt a hyfforddi. Rydym hefyd yn rhentu gofod swyddfa yn Birmingham ar gyfer llai na 200 o staff, fodd bynnag, nid yw'r safle hwn yn gymwys i'r adroddiad hwn.

1.3. Mae cynaliadwyedd a gwella bioamrywiaeth wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud yn yr asiantaeth. Mae hyn yn cael ei amlinellu yn ein **Polisi Amgylcheddol Corfforaethol**, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr, ac sy'n esbonio ein bwriadau:

*"Mae DVLA wedi ymrwymo i ddiogelu ein hamgylchedd, atal llygredd, a gwella'n perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Ein polisi yw gwella'n perfformiad amgylcheddol yn barhaus trwy… ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau ein hystâd."*

1.4. Er nad yw prif swyddogaeth DVLA yn perthyn yn uniongyrchol i adfer natur a rheoli tir, mae'r ffordd rydym yn rheoli ein hystâd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Rydym wedi amlinellu nifer o nodau a thargedau, fel y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bioamrywiaeth ar ac o gwmpas ein hystadau.

## 2. Gosod llinell sylfaen

2.1. Cafodd arfarniad ecolegol cyntaf ei gynnal ar 13 Gorffennaf a 21 Gorffennaf 2019, gan yr Uwch Reolwr Cynaliadwyedd a Gwasanaethau Teithio (STSM), â chymorth ecolegydd ag 20 mlynedd o brofiad ac sy'n aelod siartredig o'r Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol Siartredig (CIEEM). Cafodd cyfres o rywogaethau planhigion ei chrynhoi, â helaethrwydd rhywogaethau planhigion yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio'r raddfa DAFOR. Mae cynefinoedd dangosiadol a adnabyddir yn DVLA yn cael eu rhestru yn Nhabl A.

2.2. Mae arolygon wedi cael eu cynnal ar draws yr ystâd i bennu presenoldeb unrhyw rywogaethau a ddiogelir a nodedig. O Fai 2018 i Hydref 2019 cafodd yr arolygon canlynol eu cynnal:

- arolwg ystlumod
- arolwg anifeiliaid ymlusgol
- arolwg coed (wedi'i gynnal yn ein prif safle)

2.3. Mae gweithredoedd penodol wedi cael eu dynodi i rywogaethau unigol yn unig pan fydd eu hanghenion y tu hwnt i fodd y gweithredoedd a amlinellir yng Nghynlluniau Rheoli Cynefin yr Asiantaeth.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

## Tabl A

| Math o Gynefin | Deddf Amgylchedd (Cymru) Act a.7 cynefin blaenoriaeth | Prif safle – Treforys | Safle diwydiannol |
|---|---|---|---|
| Prysgwydd Dwys | Iseldir rhostir | ✓ | ✓ |
| Tir parc/coed gwasgaredig wedi'u cymysgu | Porfa coed a thir parc | ✓ | ✓ |
| Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella | Dolydd iseldir | ✓ | ✓ |
| Glaswelltir amwynder | Na | ✓ | ✓ |
| Llwyn wedi'i gyflwyno | Na | ✓ | ✓ |
| Clawdd cyfan tlawd o ran rhywogaethau | Cloddiau | ✓ | ✓ |
| Clawdd tlawd o ran rhywogaethau a choed | Cloddiau | ✓ | |
| Cynefinol tal | Iseldir rhostir | | ✓ |
| Dŵr mesotroffig yn sefyll | Pyllau | | ✓ |
| Ffos sych | Na | | ✓ |

Mae Tabl A yn dangos canlyniadau Cam 1 yr arolwg cynefinoedd. Mae'n dangos hefyd a yw pob cynefin wedi'i ddiogelu o dan adran 7 y Ddeddf Amgylchedd (Cymru).

## Tabl B

| Rhywogaeth | Rhywogaeth s.7 | Prif safle – Treforys | Safle diwydiannol |
|---|---|---|---|
| Ystlumod: | | | |
| Ystlum (Nyctalus noctule) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Leisler's (Nycatalus) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Corystlum cyffredin (Pipistrellus pipistrellus) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Corystlum Nathusius (Pipistrellus Nathusii) | ✓ | ✓ | ✓ |
| Corystlum Soprano (Pipistrellus Pygmaeus) | ✓ | ✓ | |
| Ystlum clustiau hir brown (Piecotus auratus) | ✓ | ✓ | |
| Gwenyn Mêl | | | ✓ |
| Madfallod Cyffredin (Zootoca vivipara) | ✓ | | ✓ |
| Ffacbysen y coed (Vicia sylvatica) | | ✓ | |
| Cribau San Ffraid (Stachys Offcinalis) | | ✓ | |
| Clymog Japan (Reynoutria japonica) | | ✓ | |
| Ceirch coch (Crocosmia x Crocosmiiflora) | | ✓ | |
| Rhododendron (Rhododendron Ponticum) | | | ✓ |
| Creigafal (Cotoneaster sp.) | | | ✓ |

Mae Tabl B yn dangos canlyniadau'r arolygon penodol amrywiol. Mae'n dangos hefyd a yw pob cynefin wedi'i ddiogelu o dan adran 7 y Ddeddf Amgylchedd (Cymru).

## 3. Llywodraethiant

3.1. Mae'n gyfrifoldeb yr Uwch Reolwr Cynaliadwyedd a Gwasanaethau (STSM) i sicrhau bod yr asiantaeth yn ateb ei gofynion adrodd adran 6. Cafodd yr **adroddiad diwethaf** ei gyflwyno yn 2019. Mae'n Cynllun **Gweithredu Bioamrywiaeth** (BAP) yn ffactora gofynion adran 6 i mewn, gan ddileu'r angen am gynllun adran 6 penodol.

3.2. Cafodd ein BAP 2020 i 2025 ei gyhoeddi yn Nhachwedd 2020 fel fframwaith i ddarparu gwelliannau diriaethol i fioamrywiaeth sy'n bodoli o fewn ffiniau safleoedd y DVLA ar draws Abertawe. Yr Uwch Reolwr Cynaliadwyedd a Gwasanaethau Teithio yw awdur y BAP ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod amcanion y cynllun yn cael eu diwallu.

3.3. Mae amcanion ein BAP fel a ganlyn:

3.3.1. sicrhau bod y targedau cynefin a rhywogaeth o adran 7 y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth 2020 i 2025, a BAP lleol Abertawe yn cael eu cyfieithu i weithredu effeithiol ar yr ystâd

3.3.2. adnabod targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau eraill o bwysigrwydd lleol ar ein hystâd

3.3.3. datblygu partneriaethau effeithiol â staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadw bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y dyfodol

3.3.4. codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol o'r angen am gadw bioamrywiaeth a darparu cyfarwyddyd ar fioamrywiaeth

3.3.5. sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn ledled ein gweithrediadau

3.3.6. monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadw bioamrywiaeth i safon sy'n addas ar gyfer ennill gwobr bioamrywiaeth

## 4. Uchafbwyntiau, prif ganlyniadau a materion

### 4.1. Uchafbwyntiau

4.1.1. Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae DVLA wedi cymryd rhan ym 'Mai Dim Torri Gwair', sy'n caniatáu i ardaloedd o laswelltir o gwmpas yr ystâd ffynnu dros fis Mai. Mae'n cyfranogaeth ym 'Mai Dim Torri Gwair' wedi cael ei hyrwyddo i staff ar draws yr asiantaeth trwy strategaeth gyfathrebu sy'n esbonio'r buddion o flodau gwyllt, yn annog staff i fwynhau'r ardaloedd gwyrdd ledled yr ystâd, ac yn rhoi cyfle i'r staff i arddangos eu gerddi blodau gwyllt eu hunain. Pob blwyddyn, mae staff yn cymryd rhan ac yn buddsoddi mwy yn ein targedau bioamrywiaeth a chadwraeth, ag awydd brwd i weld newid mwy parhaol i sut mae'r ystâd yn cael ei rheoli wrth symud ymlaen.

4.1.2. Rydym yn parhau i gynnal cwch gwenyn yn ein Safle Diwydiannol. Mae poblogaeth y gwenyn yn cael budd o'r blodau gwyllt o gwmpas yr ystâd, ond hefyd yn hyrwyddo planhigion lleol trwy gynyddu'r tebygolrwydd o beillio. Mae'r cwch ei hun yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr ac mae'n gymharol hunangynhaliol gan nad yw'r mêl yn cael ei gasglu.

4.1.3. Mae staff Diogelwch wedi cael eu hyfforddi ar sut i helpu bywyd gwyllt wedi'i anafu sy'n cael ei ganfod ar ystâd yr asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar ba fesurau ddylai gael eu cymryd i ddiogelu staff a'r bywyd gwyllt. Rhoddwyd rhestr iddynt hefyd o sefydliadau, gan gynnwys y milfeddyg agosaf, i'w caniatáu i gael y cymorth sy'n ofynnol. Mae staff Diogelwch yn ymwybodol fod angen iddynt gysylltu â DEFRA os oes unrhyw rywogaethau wedi'u diogelu neu anifeiliaid marw yn cael eu canfod ar unrhyw un o'n safleoedd.

4.2. **Canlyniadau allweddol**

4.2.1. Mae arfarnu bioamrywiaeth yn bresennol ar hyn o bryd ar ystâd yr asiantaeth yn darparu llinell sylfaen ar gyfer cynllun gweithredu cynhwysfawr sydd wedi cael ei greu a'i gyhoeddi. Mae hyn yn ffurfio'r fframwaith sy'n caniatáu i'r asiantaeth ganolbwyntio ei hadnoddau i hyrwyddo a diogelu bioamrywiaeth ar draws yr ystâd, a'r gymuned ehangach.

4.2.2. Mae ymarfer yn cael ei ymgymryd i leihau y swm o dorri gwair a defnydd o blaladdwr ar draws yr ystâd. Y cynnig yw torri gwair yr ystâd yn llai aml, gan ddileu achlysuron i gyfyngu maetholion yn y pridd. Bydd hyn yn lleihau twf y gweiriau a phlanhigion cadarnach i hyrwyddo datblygiad blodau gwyllt trwy gyfyngu ar gystadleuaeth, sy'n arwain yn gyffredinol at arbedion cost. Mae blaenoriaethu bioamrywiaeth yn aml yn fwy cost-effeithiol na threfn gynnal egnïol.

4.2.3. Mae'r tîm Cynaliadwyedd yn parhau i dyfu, â'r llogi o Reolwr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sy'n gyfrifol am weithredu'r BAP ac ymgysylltu â staff ledled yr asiantaeth. Mae'r adnodd ychwanegol hwn yn caniatáu i'r DVLA roi'r sylw y maen nhw'n eu haeddu i fioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

4.3. **Materion**

4.3.1. Mae tiroedd yr asiantaeth yn cael eu rheoli trwy gontract cynllun cyllid preifat (PFI), sy'n ei roi o dan gyfrifoldeb y contractwr PFI, Telereal Trillium (TT). Mae TT yn defnyddio'r is-gontractwr, Countrywide, sy'n cynnal y tiroedd yn unol â'r fanyleb yn y contract PFI.

4.3.2. Oherwydd natur y contract PFI, mae gofynion penodol yn cael eu gosod ar gynnal tiroedd ystâd y DVLA. Mae'r gofynion hyn yn canolbwyntio ar estheteg, megis lawntiau a chloddiau wedi'u cadw'n dda. Mae hyn yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer twf blodau gwyllt a bioamrywiaeth gynyddol ar yr ystâd.

4.3.3. O 17 i 18 Chwefror, dymchwelodd Storm Eunice dair coeden yn safle Treforys, gan gynrychioli'r golled fwyaf i fioamrywiaeth yn y cyfnod adrodd. Cafodd arolwg coed ei gynnal ym Mehefin 2022 i asesu iechyd y coed sy'n weddill. Mae gan DVLA drefn archwilio barhaol i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Atebolrwydd Preswylwyr 1957 a 1984 a chynnal bioamrywiaeth.

## 5. NRAP Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth i sefydlu bioamrywiaeth trwy gydol gwneud penderfyniadau ar bob lefel

5.1. Mae Cynllun Busnes yr asiantaeth ar gyfer 2022-2023 yn datgan yn benodol y bydd yn "cyflawni gwaith i wella'r cynaliadwyedd o/neu leihau'r effeithiau amgylcheddol o'n hystâd weithredol a'n teithio". Mae'n amlygu y bydd gwella bioamrywiaeth yr ystâd yn gyfrannwr allweddol at gyflawni nod y cynllun busnes.

5.2. Mae gan yr asiantaeth Strategaeth Gyfathrebiadau Gynaliadwy sy'n cynllunio cyfathrebiadau mewn ffurfiau amrywiol, yn amrywio o bodlediadau i ddigwyddiadau cydweithredol â rhanddeiliaid. Nod y strategaeth yw sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael eu cadw'n wybodus am yr holl faterion a digwyddiadau amgylcheddol, gan gynnwys bioamrywiaeth. Mae rhai enghreifftiau o gyfathrebiadau yn cynnwys:

- podlediad COP27 sy'n crynhoi'r digwyddiad
- erthygl Dim Torri Gwair Mai sy'n amlygu buddion blodau gwyllt, â delweddau o ddolydd blodau gwyllt yn cael eu caniatáu i ffynnu ar yr ystâd
- erthygl sy'n adolygu'r BAP a'i bwysigrwydd i'r DVLA a'r amgylchedd

Mae'r amrywiaeth hon o gyfathrebiadau wedi'i dylunio i gyrraedd y nifer fwyaf o staff â phosibl, gan ddarparu gwybodaeth sy'n amlygu pwysigrwydd bioamrywiaeth, a'r gwerth mae'n ei hychwanegu i'r asiantaeth.

## 6. NRAP Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth drostynt

6.1. Mae'r BAP yn nodi pa rywogaethau a chynefinoedd a restrir ar y rhestrau bioamrywiaeth adran 7 sydd wedi cael eu canfod ar ystâd yr asiantaeth. I ateb gofynion Deddf Amgylchedd (Cymru), mae cynlluniau rheoli cynefinoedd penodol wedi cael eu rhoi mewn grym. Mae'r rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau i'w canfod o dan 'Gosod Llinell Sylfaen' yn yr adroddiad hwn.

6.2. Mae'r asiantaeth yn cynnal cwch gwenyn ar ei Safle Diwydiannol. Dros gwrs y pandemig COVID-19, mae'r cwch wedi dirywio oherwydd diffyg cynnal a chadw a llawer o stormydd yn difrodi strwythur y cwch. I wella hyn, mae DVLA yn gwneud aelod o staff yn gyfrifol am gynnal a chadw a gofalu am y cwch. Bydd yn derbyn hyfforddiant a chyfarpar priodol, ac yn ffurfio amserlen archwilio, i gynnal y cwch a'i boblogaeth. Amcan y cwch yw nid i ffermio mêl, ond yn hytrach i hyrwyddo bioamrywiaeth ar safle, yn enwedig blodau gwyllt fydd yn cael budd o gael peillwyr gerllaw.

6.3. Mae Adfer natur yn cael ei reoli trwy System Reoli Amgylcheddol yr asiantaeth. Mae amserlen o archwilio yn ei lle sy'n cynnwys archwiliad o gynnydd yr asiantaeth yn erbyn amcanion adfer bioamrywiaeth a natur. Mae'r cwmpas yn cynnwys yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni, unrhyw broblemau neu heriau a pha weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i gyflawni cynnydd.

## 7. NRAP Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefin

7.1. Mae'r rhan fwyaf o ystâd yr asiantaeth yn drefol. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd gwyrdd sy'n bresennol ar yr ystâd eisoes yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u diogelu o dan adran 7 y Ddeddf Amgylchedd (Cymru). Dyma gyfle i DVLA wneud gwahaniaeth yng ngwytnwch yr amgylchedd naturiol trwy ddiogelu'r cynefinoedd hyn a chreu rhai newydd. Isod byddwch yn canfod enghreifftiau o weithredoedd mae'r asiantaeth wedi'u cymryd yn y tair blynedd diwethaf i gyflawni hyn.

7.1.1. Mae gwaith wedi cael ei gynnal ar y pwll dŵr croyw yn safle'r uned ddiwydiannol, i adfer a diogelu'r cynefin hwn. O Dachwedd i Ragfyr 2021, cafodd y pwll ei glirio o tua thraean o'i lystyfiant. Mae'r pwll yn awr yn cael ei fonitro i atal tresmasu gan lystyfiant, sy'n tagu'r cynefin.

Pob blwyddyn, ar gylchdroad, bydd y pwll yn cael ei lanhau o draean arall o'i lystyfiant. Er mwyn cyfyngu ar dyfiant algâu ar y pwll, mae gwellt barlys wedi cael ei gyflwyno i'r pwll a bydd yn parhau i gael ei gyflwyno'n rheolaidd. Bydd hyn yn naturiol yn cyfyngu'r cronni o algâu ar y pwll, gan helpu i gynnal iechyd y cynefin. Mae hyn hefyd yn enghraifft o reolaeth fiolegol heb y defnydd o laddwyr algâu, gan ddarparu datrysiad mwy darbodus, heb gyflwyno cemegolion i mewn i'r ecosystem.

7.1.2. Mae gan yr asiantaeth sawl clawdd ar draws ei hystâd a ddefnyddir gan adar a mamaliaid bach i fwydo a nythu. Ni ddylai cloddiau gael eu torri rhwng misoedd Mawrth ac Awst. Os yw torri cloddiau yn ofynnol mae arolwg cerdded yn cael ei wneud i sicrhau nad oes adar sy'n nythu. Os oes adar yn cael eu canfod yn adeiladu neu'n defnyddio nyth ni fydd yr adran honno o'r clawdd yn cael ei thorri hyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan nad yw nythu'n weithredol bellach.

7.1.3. Mae clawdd brodorol newydd wedi cael ei blannu ar ystâd Treforys. Mae'n cynnwys rhafnwydden, draenen ddu, rhosyn gwyllt a chorswigen, pob un ohonynt yn frodorol i'r ardal. Cyn gynted ag y bydd y clawdd wedi tyfu'n llawn, bydd yn darparu lle i adar nythu, a safleoedd gaeafgysgu i blanhigion ac anifeiliaid lleol.

## 8. NRAP Amcan 4: Mynd i'r afael â phrif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

8.1. Mae gan yr asiantaeth gynllun rheoli clymog Japan mewn grym i fonitro a thrin poblogaethau o'r rhywogaeth ymledol hon ar draws yr ystâd. Trwy gydol 2021 i 2022, ni chafodd ardaloedd newydd o glymog Japan eu hadnabod. Dangosodd pob lleoliad hysbys yn cynnwys clymog Japan arwyddion o ddirywiad, a rhai ardaloedd yn dangos dim arwyddion o gwbl. Mae hyn yn amlygu effeithiolrwydd y cynllun rheoli a'i weithrediad.

8.2. Mae defnydd llyswenwyn a phlaladdwr yn cael ei fonitro gan TT a Countrywide i sicrhau mai dim ond swm lleiaf o'r sylweddau hyn sy'n cael eu defnyddio ar draws y safle.

8.3. Mae gan yr asiantaeth System Reoli Amgylcheddol achrededig 14001:2015 (EMS), sy'n caniatáu i'r tîm Cynaliadwyedd fonitro, mesur a lleihau effaith yr asiantaeth ar yr amgylchedd. Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn gosod targedau amgylcheddol llym ar yr asiantaeth, yn amrywio o leihau cyfanswm allyriadau carbon, i'r swm o bapur rydym yn ei ddefnyddio.

8.4. O 2019 i 2020, mae'r asiantaeth wedi gweld gostyngiad yn ei heffaith amgylcheddol, sy'n lleihau ei heffaith ar yr amgylchedd lleol, gan fynd i'r afael â phrif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd lleol. Un o'r newidiadau pwysicaf sydd wedi bod yw'r gostyngiad mewn defnydd dŵr, sydd yn unol ag Achrediad Waterwise yr asiantaeth a gyflawnwyd yn y flwyddyn adrodd, 2021 i 2022. Mae'r achrediad hwn yn darparu sicrwydd allanol o'r ymdrechion ac ymgymeriadau mae'r asiantaeth yn eu gwneud i gyfyngu ar ei defnydd o ddŵr.

8.5. Mae'n rhaid i DVLA sicrhau ei bod yn ateb isafswm Safonau Prynu Llywodraeth gorfodol (GBS) wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn ffurfio rhan o gaffael cyhoeddus cynaliadwy'r llywodraeth. Yr amcan yw i DVLA ddiwallu ei hanghenion am nwyddau, gwasanaeth, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sydd o fudd nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, tra'n lleihau difrod i'r amgylchedd.

8.6. Ar y dudalen nesaf byddwch yn canfod crynodeb o safonau allweddol mae DVLA yn cydymffurfio â nhw, gan amlygu ei ffocws ar liniaru'r niwed mae'n hystâd a'n gweithrediadau yn ei gael ar yr amgylchedd. Sylwch, nid yw'r grynodeb yn cwmpasu holl Safonau Prynu'r Llywodraeth, sy'n gallu cael eu canfod yma.

## Tabl C

| | 2019/2020 | 2020/2021 | 2021/2022 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Allyriadau Carbon ($CO_2e$)** | 7,977 | 6,318 | 6,237 |
| **Defnydd o Ddŵr ($m^3$)** | 52,865 | 34,587 | 36,413 |
| **Cyfanswm Gwastraff (Tunelli metrig)** | 1,120 | 771 | 907 |
| **Gwastraff i Safle Tirlenwi (%)** | 0.8% | 1.40% | 0.83% |

Mae tabl C yn dangos y cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn o berfformiad amgylcheddol yr asiantaeth.

## Tabl D

| | |
|---|---|
| **Amlenni** | Mae'n rhaid cael cynnwys 100% wedi'i ailgylchu ar gyfer defnydd cyffredinol.<br>Mae'n rhaid cael cynnwys 60% wedi'i ailgylchu ar gyfer defnydd system bostio. O'r cynnwys heb ei ailgylchu (40% neu lai), mae'n rhaid prynu unrhyw fwydion crai yn unol â pholisi caffael coed y DU.<br>Dim ond coed a chynhyrchion coed yn deillio nail ai o ffynonellau cyfreithiol a chynaliadwy wedi'u ddilysu'n annibynnol neu gan bartner Llywodraethiant a Masnach Gorfodi Cyfraith Coedwig (FLEGT) y gellir eu prynu. |
| **Papur** | Mae'n rhaid i'r broses ailgylchu fod yn Rhydd rhag Clorin Elfennol (ECF), ac allyriadau cyfansawdd Adsugnadwy Organig Halogenedig (AOX) o gynnyrch o'r holl fwydion a ddefnyddir o dan 0.25kg y Dunnell Fetrig wedi'i Sychu gan Aer (ADT) neu'n Rhydd rhag proses Clorin (PCF).<br>Mae'n rhaid i bapur copïo a graffig gael cynnwys 100% wedi'i ailgylchu, i gynnwys ffibr gwirioneddol adferedig yn unig (hynny yw, dim byd 'wedi'i dorri yn y felin' oni bai o linell gynhyrchu papur wedi'i ailgylchu yn unig), yn unol â diffiniad NAPM.<br>Mae'n rhaid i bapur sidan (er enghraifft, papur cegin a thŷ bach a thywelion llaw) gael cynnwys 100% wedi'i ailgylchu, i gynnwys ffibr wedi'i adfer yn wirioneddol yn unig. |
| **Gwasanaethau bwyd ac arlwyo** | Bydd o leiaf 10% o gyfanswm gwerth ariannol prif nwydd (hynny yw, cynhwysyn crai) bwyd a diod a brynir yn cael ei archwilio a'i ardystio:<br>• safonau ar gael yn gyhoeddus o Gynhyrchu Integredig (IP) neu reolaeth Fferm Integredig (IFM)<br>• safonau organig ar gael yn gyhoeddus yn cydymffurfio â Rheoliad Cyngor Ewropeaidd 834/2007<br>Mae'n rhaid i bob palmwydd (gan gynnwys cynhyrchion olew palmwydd a chynhyrchion sy'n deillio o olew palmwydd) sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer coginio fel cynhwysyn mewn bwyd gael ei gynhyrchu'n gynaliadwy.<br>Mae'r holl bysgod yn amlwg gynaliadwy a phob pysgodyn a ddelir o'r gwyllt yn ateb Cod Ymddygiad y Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth ar gyfer Pysgodfeydd Cyfrifol (mae hyn yn cynnwys ardystiad Cyngor Stiwardiaeth Forol a Chymdeithas Cadwraeth Forol 'pysgod i'w bwyta', neu gyfatebol). |
| **Tecstiliau** | Mae'n rhaid i gynigwyr ddangos y gyfran o gotwm neu ffibrau naturiol eraill a ddefnyddir yn y cynnyrch terfynol fesul pwysau yn deilio o gynhyrchiad. Mae'n rhaid i'r cyflenwr ddarparu tystiolaeth o darddiad y ffibrau a ddefnyddir a natur organig eu cynhyrchu, megis logo organig yr UE neu logos cenedlaethol cymeradwy ar gyfer cynhyrchu organig.<br>Dylai cynigwyr ddangos sut maen nhw wedi cymhwyso'r meddwl cylchu bywyd i ddewis ffibrau a deunyddiau sy'n cael yr effaith amgylcheddol isaf dros oed gyfan eu cynnyrch. Mae'n rhaid i'r cyflenwr ddarparu tystiolaeth o'r budd o gymharu â ffibr realistig amgen dros ei oes, fel y cyfiawnheir gan astudiaethau annibynnol (er enghraifft, asesiad cylch bywyd).<br>Mae'n rhaid i gynigwyr ddangos y gyfran o'r cynnyrch trwy bwysau wedi'i wneud o ffibrau wedi'u hailgylchu, er enghraifft ffibrau yn deillio'n unig o doriadau gan wneuthurwyr tecstiliau a dillad neu gan wastraff ar ôl defnyddwyr (tecstil neu fel arall). |

Mae Tabl D yn grynodeb o brif safonau prynu llywodraeth mae DVLA yn cydymffurfio â nhw.

## 9. NRAP Amcan 5: Gwella'n tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

9.1. Bydd yr arolygon a gafodd eu cynnal i greu llinell Sylfaen y BAP 2020 i 2025 yn cael eu cynnal eto yn 2024. Pwrpas hyn yw olrhain yr effeithiau mae'r BAP a HAPau a SAPau unigol wedi cael ar boblogaethau rhywogaethau a chynefinoedd adran 7 ar draws yr ystâd. Bydd y wybodaeth a gesglir hefyd yn cael ei defnyddio i ffurfio'r ailadroddiad nesaf o'r BAP, gan ddarparu'r data gofynnol i bennu pa ardaloedd sydd angen rhagor o adnoddau neu ffocws.

9.2. Bydd y data a gesglir o'r arolygon hyn yn gwasanaethu fel banc tystiolaeth sy'n llenwi bylchau sydd wedi bodoli o'r blaen. Bydd hyn yn caniatáu i'r tîm Cynaliadwyedd ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn bioamrywiaeth ar draws yr ystâd a defnyddio'r dystiolaeth hon i gynorthwyo gweithredu cynlluniau bioamrywiaeth yn y dyfodol.

## 10. NRAP Amcan 6: Gosod fframwaith llywodraethiant a chymorth ar gyfer darparu

10.1. Mae Grŵp Llywio Bioamrywiaeth wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys uwch reolwyr o adrannau rhanddeiliaid. Mae'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd tuag at gyflawni nodau'r BAP ac unrhyw faterion sydd wedi cyflwyno'u hunain. Mae'r grŵp hefyd yn gweithio i sefydlu bioamrywiaeth trwy gydol gwneud penderfyniadau ar draws y busnes.

10.2. Mae'r STSM yn ecolegydd cymwys â dros 15 mlynedd o brofiad. Mae hyn yn dangos y gellir tynnu ar arbenigedd ecolegol heb yr angen i geisio ymgynghori allanol. Mae hyn yn golygu bod gan y tîm Cynaliadwyedd yr arbenigedd ar gael i sicrhau bod adfer natur wrth galon strategaeth amgylcheddol yr asiantaeth.

10.3. Mae'r strategaeth cyfathrebu cynaliadwyedd yn parhau i gael ei hehangu i ddarparu gwybodaeth mewn ffordd fwy ddynamig. Mae'r defnydd o gyfathrebiadau sain, y ffurf podlediau, yn caniatáu i bobl ymgysylltu â chyfathrebiadau amgylcheddol mewn ffordd amrywiol. Gyda rhagor o bobl yn ymwybodol o'r pwysigrwydd o ddiogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth, mae cydweithio yn parhau i wella a bydd o'r pwys mwyaf i gyflawni'r nodau a amlinellir yn BAP yr asiantaeth.

10.4. Mae DVLA yn parhau i fod yn aelod gweithredol o Bartneriaeth Natur Lleol Abertawe, yn ymgysylltu â sefydliadau eraill yn ardal Abertawe i hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer natur. Yn ddiweddar helpodd yr asiantaeth i fireinio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe trwy ddarparu adborth ar nodau a ddatganwyd.

10.5. Mae tîm Cynaliadwyedd yr asiantaeth wedi ehangu yn y misoedd diweddar, gan gyflogi Rheolwr Cynaliadwyedd ac Amgylchedd a Rheolwr Caffael Cynaliadwy. Mae'r rolau hyn yn rhoi'r capasiti i roi'r amser i adfer natur, gwastraff, a chaffael cynaliadwy y mae'n ei haeddu. Mae'n sicrhau bod yr asiantaeth yn cymryd ymagwedd cylch bywyd at ei gweithgareddau, gan sefydlu cynaliadwyedd o'r prynu o nwyddau a gwasanaethau hyd ddiwedd eu hoes.

## 11. Camau nesaf

11.1. Gyda chwblhau contractau PFI yr asiantaeth erbyn 2025, mae'r asiantaeth mewn lle da i drawsnewid ei hystâd i sicrhau diogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae cynaliadwyedd yn bresennol trwy gydol cwmpas y manylebau gwasanaethau caled a medal, gan sicrhau bod contractwyr posibl yn galluogi DVLA i gyflawni ei nodau a'i amcanion amgylcheddol, gan gynnwys y rheini a amlinellir yn y **BAP**.

11.2. Mae safle'r uned ddiwydiannol yn cael sylw penodol, â chwch gwenyn yn cael ei atgyweirio a rhywogaethau cyfeillgar at beillwyr yn cael eu plannu i greu cynefin cyfoethog mewn bioamrywiaeth. Gan nad yw'r safle hwn yn agored i'r cyhoedd mae cwmpas helaethach i'r gwaith ecolegol ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu cynefinoedd mosäig i hyrwyddo cynnydd a chyflawni'r swm mwyaf o fioamrywiaeth.

11.3. Yn 2024, bydd y BAP yn cael ei adolygu. Fel rhan o'r broses hon bydd DVLA yn ymchwilio i'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud, trwy ddadansoddi'r canlyniadau o'r holl arolygon ecolegol. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn ffurfio'r BAP nesaf, fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2025 i 2030. Bydd y cynllun hwn hefyd yn ystyried unrhyw rwymedigaethau cydymffurfio neu dargedau llywodraeth, gan gynnwys y rheini a ddatgenir yn y GGCau.

Cyfarwyddwr HRED: **Louise White**

Uwch Reolwr Cynaliadwyedd: **Andrew Lees**

Dyddiedig: **Rhagfyr 2022**